



NEW SINFONIA CIO
RHIF ELUSEN: 1192503

NEW Sinfonia
14 Clos y Pren Afal
Parc Hermitage
Wrecsam
LL13 7GU

Dyddiad Adolygu Diwethaf y Polisi: 23rd March 2024

POLISI IAITH GYMRAEG

Tabl Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Nod	2
3. Cyfathrebu Llafar	2
4. Gohebiaeth Ysgrifenedig	2
5. Blociau Llofnod	3
6. Deunydd Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo	3
7. Hysbysiadau i'r Wasg a Chyfryngau Electronig	3
8. Recriwtio Personel	3
9. Partneriaid	3
10. Adolygiad	3

1. Cyflwyniad

Mae NEW Sinfonia (CIO) sydd wedi'i leoli yn Wrecsam. Mae NEW Sinfonia yn falch o weithredu ar draws Gogledd Cymru ac o fod yn ymrwymedig i hyrwyddo, defnyddio a chynnwys yr iaith Gymraeg ym mhob achos posib. Croesewir pob cyfathrebiad gyda staff NEW Sinfonia yn Gymraeg neu Saesneg.

Mae'r ymwelwyr a'r twristiaid hyn hefyd yn defnyddio ein cyfleusterau Caffi Achub.

At ddibenion y polisi hwn:

- a. Mae 'dwylieithog' yn cyfeirio at y Gymraeg a'r Saesneg.
- b. Rydym yn diffinio holl ymddiriedolwyr WWP, cynghorwyr, gwirfoddolwyr a gweithwyr fel 'personél'.

2. Nod

Ein nod, pryd bynnag y bo modd, yw cyfathrebu'n effeithiol gyda'n hymwelwyr a defnyddwyr yn eu dewis iaith, sef Cymraeg neu Saesneg; a byddwn yn arddangos yr holl wybodaeth barhaol ac arwyddion yn ddwyieithog.

3. Cyfathrebu Llafar

Bydd ein personél yn defnyddio eu dewis iaith wrth gyfarch a helpu defnyddwyr, ymwelwyr a thwristiaid. Fodd bynnag, byddwn yn annog ein personél i ddefnyddio'r Gymraeg pan fo hynny'n briodol, a byddwn yn cefnogi'r rhai sy'n dymuno gwella eu sgiliau Cymraeg i wneud hynny. Os na fydd personél sy'n siarad Cymraeg ar gael, byddwn yn sicrhau bod ymholiadau a galwadau yn Gymraeg yn cael eu trin yn effeithiol yn Gymraeg cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

4. Gohebiaeth Ysgrifenedig

Rydym yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bydd ein hymateb yn cael ei wneud yn newis iaith y cychwynnwr. Bydd ein personél yn ateb yn eu dewis iaith pryd bynnag y byddwn yn ymateb i ohebiaeth ddwyieithog. Pryd bynnag y byddwn yn cychwyn gohebiaeth byddwn yn defnyddio ein profiad i benderfynu a ddylid ei hysgrifennu yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog. Ymhellach, byddwn yn ymdrechu i osgoi unrhyw oedi sylweddol wrth ohebu trwy gyfrwng y Gymraeg.

5. Blociau Llofnod

Bydd ein personél yn datgan eu rôl o fewn y Sefydliad yn ddwyieithog o fewn eu bloc llofnodion pryd bynnag y byddant yn gohebu naill ai drwy e-bost neu lythyrau ysgrifenedig.

6. Deunydd Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo

Ein nod yw i'n holl ddigwyddiadau gael eu hysbysebu a'u hyrwyddo'n ddwyieithog ar ffurf electronig.

7. Hysbysiadau i'r Wasg a Chyfryngau Electronig

Bydd ein datganiadau i'r wasg a datganiadau i'r cyfryngau yn cael eu cyhoeddi yn unol â'r iaith cyhoeddi. Byddwn yn ymdrechu i ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg lle bo modd yn ein harlwy cyfryngau cymdeithasol.

8. Recriwtio Personél

Bydd hysbysebion ar gyfer recriwtio personél yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog. Byddwn yn sicrhau bod siaradwr Cymraeg rhugl yn bresennol yn y cyfweiliad pryd bynnag y bydd ymgeisydd yn nodi y byddai'n well ganddo gyfathrebu yn Gymraeg.

9. Partneriaid

Wrth weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, byddwn yn rhoi gwybod iddynt am ein Polisi Iaith Gymraeg, ac yn eu hannog i weithio'n ddwyieithog. Fodd bynnag, ni fyddwn yn gorchymyn iddynt ddilyn ein polisi.

10. Adolygiad

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu bob dwy flynedd o leiaf.